Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Llywodraeth Cymru - Gael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy'n gadael gofal am dalu'r dreth gyngor

Yn cau 12 Tachwedd 2021

**Eich enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
**E-bost:** safercommunities@wlga.gov.uk

## Cyflwyniad i Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol.

Cefnogir yr ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

## Cwestiynau

### Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â bwriad y polisi i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal? Nodwch eich rhesymau.

Oes. Mae risg gwirioneddol i fudd-dal sydd gan bobl ifanc sy'n gadael gofal yr hawl iddo gael ei anwybyddu ac arwain at yr unigolion hynny i fod mewn anawsterau ariannol. Mae'n gallu cael effaith negyddol ar sgoriau credyd yn y dyfodol ac arwain at straen. Gall hynny arwain at ganlyniadau fel newid mewn ymddygiad sy'n gallu effeithio pobl sy'n gadael gofal a gwneud iddyn nhw deimlo nad ydyn nhw'n rhan o gymuned (cydlyniant cymunedol).

### Cwestiwn 2: Rydym wedi cynnig gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Ydych chi'n cytuno â hyn, neu a allwch chi awgrymu opsiynau eraill?

Rydym ni'n cytuno. Y rhain sy'n ymddangos i fod y dewis symlaf ac maen nhw'n lleihau'r risg iddyn nhw fod yn atebol am ddyled rhywun arall. Dylai hefyd leihau'r risg ohono'n cael ei ddefnyddio fel llwybr at gamfanteisio. Mae'n arbennig o bwysig i bobl sy'n gadael gofal gan eu bod nhw mewn mwy o risg o gamfanteisio fel y gwelir yn nogfen Deall y Sbardunau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent a Chyngor Casnewydd.

**Cwestiwn 3: Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai’r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

Dim Ymateb.

**Cwestiwn 4: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dim Ymateb.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i’w nodi.**

Dim Ymateb.